

Adolygiad â Phwyslais Penodol: Trefniadau Staffio, Llywodraethu, Digwyddiadau Cleifion a Rheoli Risg (Dirybudd)

Ysbyty Annibynnol Tŷ Grosvenor

Dyddiad arolygu: 29, 30 Mehefin a
1 Gorffennaf 2020

Dyddiad cyhoeddi: 02 Hydref 20

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	4
2.	Crynodeb o'n harolygiad	5
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd Profiad y Claf	
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	
4.	Beth nesaf?	13
	Atodiad A – Cynllun gwella.....	14

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad â phwyslais penodol, a gynhaliwyd yn ddirybudd, o Ysbyty Annibynnol Tŷ Grosvenor ar 29 a 30 Mehefin a 1 Gorffennaf 2020. Cafodd y gwasanaeth hwn ei arolygu'n flaenorol ym mis Hydref 2019, a chafodd yr ymweliad hwn ei gynnal yn sgil digwyddiad lle galwyd yr heddlu, a arweiniodd at godi cryn bryderon diogelu a chwythu'r chwiban gydag AGIC.

Tŷ Grosvenor – Elysium Healthcare Ltd

Ysbyty Annibynnol yw Tŷ Grosvenor, ac mae wedi'i gofrestru i ddarparu triniaeth adsefydlu i ddynton neu fenywod mewn wardiau un rhyw ar gyfer hyd at 34 (tri deg pedwar) o oedolion rhwng 18 (deunaw) a 65 (chwe deg pump) oed, sydd â diagnosis anhwylder meddwl ac a allai gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Sut y gwnaethom hyn?

Roedd y tîm yn cynnwys dau aelod o staff AGIC a ymwelodd â'r ysbyty a dau aelod arall o staff AGIC a ddadansoddodd wybodaeth ar gyfer yr ymweliad, ond na wnaethant ymweld â'r ysbyty. Roedd y drefn hon o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws a'r angen i leihau nifer y bobl a fyddai'n mynd i'r ysbyty er mwyn lleihau unrhyw risg i'r cleifion a'r staff yn Nhŷ Grosvenor.

Cynhaliwyd yr adolygiad dros nos a ben bore, ac ar un diwrnod llawn yn ogystal â hanner diwrnod arall, a chanolbwyntiodd yn benodol ar y canlynol:

- Cynlluniau gofal ac asesiadau risg
- Arsylwi ar gleifion
- Trefniadau staffio, gan gynnwys y defnydd o staff asiantaeth
- Diogelu/Digwyddiadau/Pryderon cleifion
- Llywodraethu ac archwilio.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, ni chawsom sicrwydd bod gan y darparwr cofrestredig systemau a phrosesau digonol ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal effeithiol a diogel. Un pryder penodol oedd y ffaith nad oedd cynlluniau gofal effeithiol ar waith, hyd yn oed pan nodwyd risgiau sylweddol i iechyd a lles y cleifion. Roedd y risgiau yn gysylltiedig â defnyddio'r ystafell ymolchi yn destun pryder penodol. Nodwyd nad oedd y cleifion yn cael preifatrwydd wrth ddefnyddio'r ystafell ymolchi, ond nid oedd cynllun gofal i arwain y staff wrth reoli'r risg hon pan oedd y cleifion hyn yn cael defnyddio'r ystafell ymolchi o dan oruchwyliaeth. Yn ogystal, nid oedd cynlluniau gofal ar waith ar gyfer gofalu am glwyfau, nac ar gyfer y cyfnodau hynny pan fyddai'r cyfleusterau gofal ychwanegol yn cael eu defnyddio.

Gwnaethom hefyd nodi nad oedd nyrs gofrestredig ar gael yn ystod y nos. Roedd hyn yn golygu nad oedd modd i'r nyrsys cofrestredig ar bob un o'r wardiau gymryd seibiant fel oedd i fod o'r ward, a phe bai digwyddiad, ni fyddai nyrs gofrestredig arall ar gael i'w helpu. Yn ogystal, nid oedd yn bosibl canfod y nifer gwirioneddol o staff ar y ward ar unrhyw adeg benodol ar sail y ddogfennaeth ysgrifenedig a oedd ar gael. Rhaid mynd i'r afael â hyn i sicrhau bod y rheolwr cofrestredig a'r darparwr cofrestredig yn gallu cael sicrwydd bod lefelau staffio yn ddigonol ac yn diwallu anghenion y grŵp cleifion drwy gydol pob cyfnod o 24 awr.

Mae llawer o'r materion a godir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â methiannau o ran prosesau archwilio a llywodraethu effeithiol. Pe bai prosesau archwilio a llywodraethu effeithiol ar waith, dylai'r materion hyn fod wedi cael eu nodi a dylid bod wedi ymateb iddynt cyn i'r arolygiad gael ei gynnal.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom rai meysydd o ymarfer nodedig, fel y nodir isod:

- Roedd rhywfaint o dystiolaeth dda o fewnbwn amlddisgyblaethol yn y broses cynllunio gofal
- Roedd rhai enghreifftiau o ymroddiad y staff i'r cleifion.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio mewn nifer o feysydd fel y nodir isod:

- Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 15 (1) (a) a (b) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 o ran ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir.

- Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 20 (1) (a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 o ran staffio.
- Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 19 (1) (a) a (b) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 o ran asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir mewn perthynas â rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag iechyd, lles a diogelwch cleifion, gan gynnwys datganiadau blynyddol.

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac felly cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth mewn perthynas â'r uchod.

Yn ogystal, mae'r adroddiad hwn yn nodi achosion eraill o ddiffyg cydymffurfio fel y nodir isod;

- Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 20 (2) (a) lle nodir bod yn rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob person a gyflogir yn, neu at ddibenion, y sefydliad neu at ddibenion yr asiantaeth yn cael hyfforddiant, goruchwyliaeth a gwerthusiad priodol
- Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 9 (2) (a) o ran sut y rheolir ymddygiad claf sy'n ymddwyn yn gythryblus yn effeithiol pan fydd angen galw'r heddlu
- Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 8 (a) lle nodir bod yn rhaid i'r person cofrestredig gadw'r datganiad o ddiben dan arolwg, a phan fo'n briodol, eu diwygio.

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae AGIC wedi cael sicrwydd digonol bod camau priodol wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen, neu y caiff camau o'r fath eu cymryd.

Mae canfyddiadau'r arolygiad hwn yn peri pryder mawr ac o ganlyniad, dynodwyd bod y gwasanaeth yn Wasanaeth sy'n Peri Pryder fel y disgrifir yn ein gweithdrefn orfodi. Mae hyn yn golygu bod yr ysbyty yn destun craffu ar y lefel uchaf bosibl, a bydd AGIC yn monitro'r gwasanaeth yn agos iawn i sicrhau bod y gwelliannau gofynnol yn cael eu gwneud a'u hymgorffori yn arferion yr ysbyty er mwyn sicrhau cynaliadwyedd. Rydym hefyd mewn cysylltiad rheolaidd â chomisiynwyr y cleifion sydd yn yr ysbyty. Yn ogystal, mae'r darparwr cofrestredig wedi cytuno i gyfyngiad gwirfoddol ar dderbyn unrhyw gleifion newydd i'r ysbyty.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom gydberthynas dda rhwng y cleifion a'r staff, ac roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn gwneud sylwadau cadarnhaol am rhyngweithio a dull gweithredu'r staff.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r cleifion ac roeddent yn gallu ymweld â'r gymuned.

Cododd rhai o'r cleifion ar ward Brenig bryderon, gan nodi eu bod yn poeni am eu diogelwch oherwydd ymddygiad un o'r cleifion eraill.

Cawsom sgwrs â nifer o'r cleifion yn ystod yr ymweliad er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu. Yn ogystal, cawsom sgwrs ag amryw o staff, gan gynnwys y rheolwr cofrestredig.

Urddas a pharch

Yn ystod yr arolygiad gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn ffordd therapiwtig a chadarnhaol. Siaradodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am ymroddiad a dull ystyriol y staff ym mhob disgyblaeth yn Nhŷ Grosvenor. Roedd y cleifion yn canmol yn benodol y gweithwyr adfer. Gwelsom amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol, therapiwtig a hamdden a oedd ar gael, a chawsom wybod gan y cleifion amdanynt.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun ac roedd yr ystafell wedi'i phersonoli i'r graddau a oedd yn briodol yn dibynnu ar ymddygiad ac asesiad risg y claf dan sylw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig weithio gyda'r cleifion i sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel ac nad ydynt yn teimlo dan fygythiad gan ymddygiad heriol cleifion eraill.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Ni chawsom sicrwydd bod gan y darparwr cofrestredig systemau a phrosesau digonol ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol. Un pryder penodol oedd y ffaith nad oedd cynlluniau gofal effeithiol ar waith, hyd yn oed pan nodwyd risgiau sylweddol i iechyd a lles y cleifion. Roedd y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r ystafell ymolchi yn destun pryder penodol. Nodwyd nad oedd y cleifion yn cael preifatrwydd wrth ddefnyddio'r ystafell ymolchi, ond nid oedd cynllun gofal i nodi sut y byddai'r risgiau'n cael eu rheoli pan oedd y cleifion hyn yn cael defnyddio'r ystafell ymolchi o dan oruchwyliaeth. Yn ogystal, nid oedd cynlluniau gofal wedi cael eu llunio ar gyfer gofalu am glwyfau, nac ar gyfer y cyfnodau hynny pan fyddai'r cyfleusterau gofal ychwanegol yn cael eu defnyddio.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith, ond mae angen i'r darparwr/rheolwr cofrestredig lunio polisi a gweithdrefn ar alw'r heddlu i'r uned, a bod yn fwy rhagweithiol wrth ddatblygu eu cydberthynas â'r heddlu lleol.

Nid oedd y staff yn cael eu goruchwyllo'n gyson, a dywedodd rhai aelodau o'r staff nad oeddent wedi cael sesiwn oruchwyllo ers cryn amser.

Gyda'i gilydd, roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y darparwr cofrestredig yn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Rheoli risgiau a hybu iechyd a diogelwch

Roedd modd mynd i mewn i'r ysbyty drwy ddrws allanol wedi'i gloi a drws mewnol wedi'i gloi, ac roedd cloch ar gael i'w chanu er mwyn i rywun ateb y drws.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith ar gyfer nifer o feysydd allweddol. Fodd bynnag, mae angen i'r darparwr/rheolwr cofrestredig lunio polisi a gweithdrefn ar alw'r heddlu i'r uned, a bod yn fwy rhagweithiol wrth ddatblygu eu cydberthynas â'r heddlu lleol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r darparwr cofrestredig lunio polisi lleol ar alw'r heddlu i Dŷ Grosvenor/y gydberthynas â'r heddlu.

Gofal effeithiol

Edrychwyd ar gyfanswm o bedair set o ddogfennaeth ar ofal y cleifion ar ward Brenig yn ystod yr arolygiad a barodd dridiau.

Edrychwyd ar gofnodion gofal claf A ar 30 Mehefin a gwnaethpwyd y sylwadau canlynol:

- Roedd gan y claf hanes o ymddygiad hunan-niweidiol/hunanladdol ac roedd wedi mynd i'r ysbyty cyffredinol i gael triniaeth yn dilyn ymddygiad hunan-niweidiol.
- Roedd Claf A wedi niweidio ei hun ar adegau gan ddefnyddio gwahanol eitemau ac roedd wedi torri ei iPad yn ddarnau yn ddiweddar a defnyddio'r darnau o wydr i niweidio ei hun. Dywedodd y staff nyrsio wrth AGIC fod cyflwr meddwl claf A wedi tawelu a'i fod wedi cael defnyddio iPad eto. Fodd bynnag, nid oedd asesiad risg/cynllun gofal penodol ar waith i liniaru'r risg hysbys hon.
- Roedd nodiadau gofal claf A yn nodi nad oedd y claf yn cael preifatrwydd wrth ddefnyddio'r ystafell ymolchi o ganlyniad i'w ymddygiad hunan-niweidiol. Fodd bynnag, nid oedd cynllun gofal/canllawiau i fynd i'r afael yn ddigonol â lefel yr oruchwyliaeth ar gyfer defnyddio'r ystafell ymolchi na'r risgiau i glaf A yn gysylltiedig â defnyddio'r cyfleusterau hyn.

Edrychwyd ar ddogfennaeth ofal claf B a gwnaed y sylwadau canlynol:

- Nid oedd cynllun gofal ar gyfer gofalu am glwyfau yn dilyn nifer o ddigwyddiadau pan roedd y claf wedi dangos ymddygiad hunan-niweidiol ac wedi cael anaf. Heb gynllun gofal cynhwysfawr, nid oedd modd i'r staff fonitro unrhyw welliant neu ddirywiad yn y clwyf yn effeithiol mewn modd amserol, ac nid oedd canllawiau cadarn mewn perthynas â'r rhwymynnau y dylid eu defnyddio.
- Yn ogystal, roedd clefyd anadlol gan glaf B ac roedd wedi cael ei atal yn gorfforol sawl gwaith, ond nid oedd cynllun gofal ar waith i ystyried effaith ei atal yn gorfforol ar ei allu i barhau i anadlu'n ddigonol.
- Hefyd, roedd gan glaf B hanes a ddogfennwyd yn dda o ymddygiad ymosodol corfforol a geiriol tuag at gleifion eraill a staff. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw HCR20 (neu asesiad risg cynhwysfawr tebyg ar gyfer trais a rheoli ymddygiad ymosodol) ar gael.

Edrychwyd ar gofnodion gofal claf C a gwelwyd nad oedd unrhyw gynllun gofal ar waith ar gyfer cadw'r claf mewn ardal "gofal ychwanegol" o'r ward. Pan wneir penderfyniad i gadw claf mewn ardal "gofal ychwanegol", mae'n rhaid rhoi cynllun gofal ar waith sy'n disgrifio'n glir y sail resymegol dros hyn, a chynllun i sicrhau na fydd y claf yn treulio gormod o amser mewn cyfleuster o'r fath.

Edrychwyd ar ddogfennaeth gofal claf D a nodwyd nad oedd y claf yn cael preifatrwydd wrth ddefnyddio'r ystafell ymolchi o ganlyniad i'w ymddygiad hunan-

niweidiol, ond nid oedd unrhyw gynllun gofal/canllawiau i fynd i'r afael yn ddigonol â lefel yr oruchwyliaeth ar gyfer defnyddio'r ystafell ymolchi na'r risgiau i'r claf yn gysylltiedig â defnyddio'r cyfleusterau hyn.

Roedd y ffaith nad oedd cynlluniau gofal nac asesiadau risg ar gael fel y nodir uchod yn golygu nad oedd gan y staff fframwaith i'w harwain a'u galluogi i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal ac asesiadau risg cynhwysfawr ar gael ar gyfer pob claf.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei brosesau llywodraethu er mwyn sicrhau bod unrhyw gleifion heb asesiadau risg na chynlluniau gofal priodol yn cael eu nodi ar unwaith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd yn amlwg yn ystod y broses arolygu nad oedd prosesau archwilio a llywodraethu effeithiol ar waith. Mae'r arsylwad hwn yn berthnasol i'r canfyddiadau a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â chynlluniau gofal ac asesiadau risg, ond hefyd mewn perthynas â staffio yn ystod y nos ac arferion annigonol o ran cofnodi'r nifer gwirioneddol o staff ar y ward ar unrhyw adeg benodol.

Mae'n hollbwysig bod amrywiaeth o brosesau llywodraethu ar gael ac yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn canfod y gwelliannau y mae angen eu gwneud ac yn rhoi newidiadau ar waith ar gyfer y gwasanaeth.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd amrywiaeth o systemau a phrosesau ar waith mewn perthynas â llywodraethu ac archwilio. Fodd bynnag, nid oedd y systemau yn gwella pob agwedd ar y gwasanaeth nac yn mynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Drwy gydol yr ymweliad, ni roddwyd unrhyw ddogfennaeth archwilio cynlluniau gofal i'r arolygwyr i gadarnhau bod system/proses archwilio ar waith. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd y rhain wedi mynd rhagddynt yn ystod y sesiwn adborth.

Ni chafodd AGIC sicrwydd bod prosesau llywodraethu cadarn ar waith, o ystyried pa mor ddifrifol a mynych yw'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu trefniadau llywodraethu'r ysbyty er mwyn sicrhau bod materion sy'n peri pryder yn cael eu nodi'n effeithiol a bod camau unioni yn cael eu holrhain er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Ar 29 Mehefin, pan ymwelwyd â'r ysbyty gyda'r hwyr a thros nos, dim ond dwy Nyrs Gofrestredig oedd ar ddyletswydd, un ar bob un o'r wardiau. Nid oedd cydgysylltydd nos ychwanegol ar gael, a rhoddwyd gwybod i'r arolygwyr nad oedd yr unigolyn hwnnw yn gweithio ar hyn o bryd. Nid achos unigryw oedd hwn, ac roedd y rotas dyletswydd yn cadarnhau na fu cydgysylltydd nos ar gael ar nifer o achlysuron yn ystod yr wythnosau blaenorol. Er enghraifft; 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 24, 25, a 26 Mehefin. Mewn gwirionedd, roedd y Nyrsys Cofrestredig yn gweithio mwy na 12 awr heb gael seibiant. Nid yw'r sefyllfa hon yn ddiogel ac mae'n gwbl anfoddhaol.

Mewn perthynas â nifer y staff sy'n gweithio ar unrhyw adeg benodol, nid oedd y ddogfennaeth a ddangoswyd i'r arolygwyr yn rhoi lefel ddigonol o sicrwydd bod lefelau staffio priodol yn cael eu cynnal bob amser. Gellid bod wedi rhoi'r lefel ofynnol o sicrwydd i'r arolygwyr drwy roi'r taflenni "dyraniad staff" wedi'u cwblhau ar gyfer y ddwy ward iddynt. Fodd bynnag, nid oedd y rhain ar gael a dywedwyd wrth yr arolygwyr nad oeddent yn cael eu cwblhau. Gofynnwyd am amrywiaeth o ddogfennaeth arall ond nid oedd ar gael. Dywedwyd wrth yr arolygwyr bod y wybodaeth ar gael ar lefel y wardiau ac y byddai'n cael ei hysgrifennu ar fwrdd gwyn, ond wedyn byddai'r wybodaeth hon yn cael ei dileu bob dydd. Nid oedd hyn yn rhoi sicrwydd i'r rheolwr cofrestredig, rheolwr y ward na'r arolygwyr am y nifer gwirioneddol o staff a oedd ar gael yn ystod y cyfnod 24 awr presennol na chyfnodau 24 awr blaenorol.

Yn ogystal, nid oedd y rheolwr cofrestredig yn gallu rhoi'r lefel angenrheidiol o sicrwydd i'r arolygwyr ynghylch a fyddai nifer y staff yn ddigonol i ddiwallu anghenion cleifion unigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r diffygion o ran nifer y staff, a chael system sy'n nodi'n hawdd y nifer gwirioneddol o staff sy'n gweithio ar y wardiau ar unrhyw adeg benodol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

O ran goruchwyllo staff, roedd tystiolaeth nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi cael sesiwn oruchwyllo ers cryn amser, ac yn ogystal nid oedd rhai aelodau o'r staff wedi cael eu harfarnu yn unol â pholisi Elysium. Ar y cyfan, roedd y staff wedi cael amrywiaeth o hyfforddiant, a gwelsom yn ystod yr ymweliad fod hyfforddiant yn mynd rhagddo.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff pob aelod o staff eu goruchwyllo a'u harfarnu'n briodol.

4. Beth nesaf?

Yn dilyn yr ymweliad, cynhaliodd AGIC gyfarfod adolygu ynghylch gwasanaeth sy'n peri pryder gan benderfynu, oherwydd canfyddiadau'r ymweliad, y dylid cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio ac y byddai Tŷ Grosvenor yn cael ei ddynodi'n Wasanaeth sy'n Peri Pryder. Hefyd, oherwydd y pryderon difrifol a nodwyd yn yr adroddiad hwn, penderfynwyd gofyn i'r darparwr cofrestredig gytuno i gyfyngiad gwirfoddol ar dderbyn unrhyw gleifion newydd i'r ysbyty nes bod AGIC yn fodlon na fyddai unrhyw gleifion newydd mewn perygl o gael niwed.

Mae'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad hwn a'r hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i'w gweld yn y cynllun gwella yn Atodiad A. Mae hyn yn cynnwys manylion am y camau gweithredu a gymerir gan y darparwr i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn mae AGIC wedi cael sicrwydd digonol bod y camau priodol yn cael eu cymryd, ond byddwn yn monitro'r gwasanaeth yn agos i sicrhau y caiff y gwelliannau eu hymgorffori yn arferion yr ysbyty a'u bod yn cael eu cynnal yn barhaol.

Atodiad A – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Annibynnol Tŷ Grosvenor

Dyddiad arolygu: 29 a 30 Mehefin a 1 Gorffennaf 2020.

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion ar ward Brenig yn teimlo'n ddiogel ac nad ydynt yn teimlo dan fygythiad.	Rheoliad 19 (1) (a) a (b)	<p>Yn dilyn yr Arolygiad Dirybudd â Phwyslais Penodol a gynhaliwyd ar 29 a 30 Mehefin a 1 Gorffennaf, roedd adborth gan arolygwyr AGIC yn dangos bod rhai o'r cleifion benywaidd ar Ward Brenig yn teimlo'n anniogel o ganlyniad i bresenoldeb un claf benywaidd penodol, sy'n cael ei chadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.</p> <p>Ar adeg yr arolygiad roedd y claf wedi bod yn ymddwyn mewn ffordd y gellid ei hystyried yn fygythiol tuag at gleifion eraill a'r staff o ganlyniad i'w salwch meddwl a'i syniadaeth seicotig mewn perthynas â llofruddion cyfresol, ac yn benodol y llofrudd Ted Bundy, a laddodd pobl ledled America. Holodd AGIC ai'r ysbyty hwn oedd y lle addas i ofalu am y claf hwn.</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p> <p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Parhau i fonitro drwy Adolygiad Gofal Unigol a chyfarfod y Tîm Amlddisgyblaethol</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Bu cydgysylltu rhwng aelodau o'r Tîm Amlddisgyblaethol, fel y rhanddeiliaid yng ngofal y cleifion, mewn perthynas ag addasrwydd yr unigolyn i barhau i gael gwasanaethau Tŷ Grosvenor. Gwnaed penderfyniad clinigol i gydgysylltu â Chomisiynwyr y cleifion a nodi'r cleifion sy'n peri heriau ac yn dangos symptomau salwch meddwl.</p> <p>Comisiynwyd Asesiad Porthgadw i bennu a oedd angen lleoliad mwy diogel, ond wrth i'r broses hon gael ei rhoi ar waith, bu gwelliant yn iechyd meddwl y claf gyda llai o lawer o adroddiadau o ddigwyddiadau ac ymateb amlwg i'r driniaeth a ragnodwyd.</p> <p>Yn dilyn trafodaethau â'r unigolyn dan sylw, roedd ei Chomisiynydd a'r Tîm Amlddisgyblaethol o'r farn y byddai'n briodol i barhau i ofalu amdani a rhoi triniaeth iddi yn Nhŷ Grosvenor (sef yr opsiwn lleiaf cyfyngol) gan fod ei hiechyd meddwl wedi gwella'n sylweddol, gyda'r claf yn cytuno yn agored i gydymffurfio â'r holl driniaethau ac i ymgysylltu â'r cleifion eraill mewn modd mwy priodol.</p> <p>Mae Cyfarfodydd Cymunedol yn parhau i fynd rhagddynt, ac fel rhan o'r cyfarfodydd hyn, gofynnir i'r cleifion a ydynt yn teimlo'n ddiogel. Mae aelodau o'r Uwch-dîm Rheoli yn bresennol ac yn gallu</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p>	<p>Cwblhawyd ac yn barhaus</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>uwchgyfeirio pryderon ar unwaith i Gyfarwyddwr yr Ysbyty. Mae arwyddion wedi cael eu rhoi ar y ward hefyd sy'n dweud na chaniateir unrhyw fwlio/ymddygiad bygythiol.</p> <p>Mae'r Eiriolwr wedi dechrau ymweld â'r safle yn wythnosol eto, ac mae'n gallu cynnig ffordd arall i'r cleifion ddweud eu dweud os byddant yn teimlo nad ydynt yn gallu siarad drostynt eu hunain os byddant yn teimlo dan fygythiad. Mae Eiriolwr yr ysbyty yn gallu siarad yn uniongyrchol â Chyfarwyddwr yr Ysbyty yn ystod pob ymweliad, os oes ei angen.</p> <p>Mae blychau Awgrymiadau/Pryderon/Canmoliaeth ar y ward hefyd sy'n cynnig cyfle i wneud awgrym, lleisio pryder neu ganmol yn ddiennw. Mae hyn yn cael ei adolygu'n wythnosol gan y Swyddog Cwynion a Chyfarwyddwr yr Ysbyty.</p> <p>Mae rhifau ffôn cyswllt AGIC hefyd yn cael eu harddangos yn glir ar yr hysbysfyrdau pe bai un o'r cleifion am uwchgyfeirio unrhyw fater i'r corff rheoleiddiol. Edrychir ar y byrddau bob wythnos i sicrhau nad yw unrhyw un o'r cleifion wedi dileu'r wybodaeth.</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p> <p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p> <p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
Darparu gofal diogel ac effeithiol				

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal ac asesiadau risg cynhwysfawr ar gael ar gyfer pob claf.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b)</p>	<p>Yn dilyn yr Arolygiad Dirybudd â Phwyslais Penodol a gynhaliwyd ar 29 a 30 Mehefin a 1 Gorffennaf, cynhaliwyd archwiliadau llawn a chynhwysfawr o gynlluniau gofal, asesiadau risg a chynlluniau rheoli risgiau. Cafodd tîm Tŷ Grosvenor gymorth Arweinydd Sicrhau Ansawdd Cymru i gynnal yr archwiliadau hyn.</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p>	<p>Cwblhawyd ac yn barhaus fel ymateb rheolaidd i ofal a thriniaeth</p>
		<p>Roedd y broses yn cynnwys adolygu pob cynllun gofal ar gyfer pob claf ar Ward Brenig gan ddefnyddio adnodd archwilio cynlluniau gofal. Lluniwyd cynllun gweithredu ar sail canfyddiadau'r archwiliad hwn a rhoddwyd y camau hynny ar waith i greu Cynlluniau Gofal CAMPUS.</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p>	<p>Cwblhawyd ac yn barhaus fel ymateb rheolaidd i ofal a thriniaeth</p>
		<p>Adolygwyd adnoddau asesu risg HCR20 a START a rhoddwyd sgôr gywir iddynt i adlewyrchu'r risg wirioneddol a berir gan bob claf benywaidd ar Ward Brenig.</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p>	<p>Cwblhawyd</p>
		<p>Yn yr un modd, lluniwyd asesiad risg HCR20 ar gyfer unigolyn penodol y nododd un o arolygwyr AGIC y gallai fod angen hwn arni, o ganlyniad i'r ffaith bod ei hymddygiad y nodwyd ei fod yn peri risg wedi gwaethygu. Mae hyn bellach ar waith.</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p>	<p>Cwblhawyd</p>
		<p>Adolygwyd y cynlluniau rheoli risg hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn nodi'r risg a'r ymyriadau sydd eu</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty,</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>hangen i'w lliniaru yn ddigonol ac yn effeithiol, fel eu bod yn ddefnyddiol i'r holl weithwyr sy'n rhoi gofal a thriniaeth ac yn diogelu'r unigolion rhag niwed, a hefyd yn sicrhau bod y tri pheth hyn yn cyfuno i adlewyrchu'r risg a'r broses lliniaru risg yn glir.</p> <p>Cynhaliwyd adolygiad o'r broses lywodraethu ar gyfer pecynnau gofal.</p> <p>Mae Tŷ Grosvenor wrthi'n rhoi rhaglen archwilio ar waith ar gyfer cynlluniau rheoli risg a chynlluniau gofal. Caiff canlyniadau'r archwiliadau eu hystyried gan yr Uwch-dîm Rheoli yn ystod cyfarfodydd misol ar lywodraethu'r safle.</p> <p>Mae Cyfarfod Boreol y Tîm Amlddisgyblaethol bellach wedi troi'n Gyfarfod Sicrhau Ansawdd lle yr edrychir ar ddigwyddiadau'r 24 awr blaenorol ac y caiff unrhyw newidiadau i lefelau arsylwi, ymddygiadau risg, iechyd corfforol, diogelu a thriniaeth eu trafod a'u dogfennu, ac y dyrennir unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i glinigydd priodol.</p>	<p>Edward Rowlands</p> <p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p> <p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p>	<p>Yn cael ei adolygu'n barhaus i gynnal cynlluniau rheoli risg dynamig</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Parhaus, yn cael ei adolygu'n fisol</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Caiff y camau hyn eu hadolygu'r bore trannoeth i sicrhau cydymffurfiaeth, e.e. iechyd corfforol, mae cynllun gofal ar waith ar gyfer gofal am glwyfau, diogelu sicrhau bod atgyfeiriad priodol wedi cael ei gyflwyno ac ati.</p> <p>Mae Tŷ Grosvenor hefyd yn cyflwyno hyfforddiant Asesu Risg START ar gyfer yr holl nyrsys cofrestredig i sicrhau bod dealltwriaeth glir gan y nyrsys o ganlyniadau sgorio'r adnoddau asesu risg a'u bod yn deall y broses lunio. Mae pob cynllun gofal bellach yn rhagnodol, gan roi gwybodaeth glir am y trefniadau o ran defnyddio'r ystafell ymolchi, preifatrwydd, urddas a lliniaru risg.</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p> <p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Tachwedd 2020</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei brosesau llywodraethu er mwyn sicrhau bod unrhyw gleifion heb asesiadau risg na chynlluniau gofal priodol yn cael eu nodi ar unwaith.</p>	<p>19 (1) (a) a (b)</p>	<p>Mae Cyfarwyddwr yr Ysbyty wedi adolygu'r broses llywodraethu clinigol ac wrth wneud hynny wedi sicrhau bod llinell adrodd i gefnogi'r broses llywodraethu a'r gwaith o wella cynlluniau gofal, rheoli risgiau, hyfforddiant, goruchwyllo ac arfarniadau yn barhaus.</p> <p>Mae Arweinwyr Dynodedig yn gyfrifol am lunio adroddiadau a gaiff eu bwydo i mewn i broses llywodraethu clinigol Tŷ Grosvenor er mwyn rhoi trosolwg llawn a chynhwysfawr o ba mor effeithiol rydym wrth roi gofal a thriniaeth i'n cleifion, pa mor ymatebol rydym i anghenion y cleifion mewn</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p> <p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>perthynas â chwynion ac arolygon y cleifion ac ati, ac i sicrhau arweinyddiaeth effeithiol o ran goruchwyllo, arfarniadau, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus i bob aelod o'r tîm.</p> <p>Ymysg yr ystadegau a fyddai'n cael eu hadolygu yn y cyfarfod Llywodraethu Lleol mae archwilio cynlluniau gofal, archwilio rheoli risgiau, diogelu, cwynion, canmoliaeth, hyfforddiant gorfodol, goruchwyllo ac arfarniadau.</p> <p>Ers yr arolygiad ar 29 a 30 Mehefin a 1 Gorffennaf 2020 mae amserlenni goruchwyllo ac arfarnu wedi cael eu llunio gan y gwahanol benaethiaid adrannau ac mae'r ystadegau hyn yn cael eu bwydo i mewn i system olrhain cofnodi canolog er mwyn rhoi trosolwg clir i Gyfarwyddwr yr Ysbyty o unrhyw ddiffygion o ran cymorth staff.</p> <p>Mae sesiynau dadfrifio ar ôl digwyddiadau bellach yn cael eu monitro a'u cefnogi'n fwy effeithiol drwy gyfarfodydd sicrhau ansawdd, ac mae'r Uwch-dîm Rheoli yn gallu gwneud gwaith dilynol mewn perthynas â phob unigolyn, gan gynnwys cleifion, y gall fod angen sesiwn ddadfrifio arno.</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae angen i'r darparwr cofrestredig lunio polisi lleol ar alw'r heddlu i Dŷ Grosvenor/y gydberthynas â'r heddlu.	Rheoliad 9 (2) (a)	Lluniwyd dogfen ar y cyd â'r heddlu a gaiff ei thrafod yng nghyfarfod mis Medi ar lywodraethu'r safle fel y gall yr holl randdeiliaid adolygu'r ddogfen a gwneud sylwadau arni. Bwriedir cwblhau'r ddogfen hon erbyn mis Hydref 2020.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands	Hydref 2020
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu trefniadau llywodraethu'r ysbyty er mwyn sicrhau bod materion sy'n peri pryder yn cael eu nodi'n effeithiol a bod camau unioni yn cael eu holrhain er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.	Rheoliad 19 (1)	Yn dilyn yr Arolygiad Dirybudd â Phwyslais Penodol a gynhaliwyd ar 29 a 30 Mehefin a 1 Gorffennaf 2020, mae Cyfarwyddwr yr Ysbyty wedi adolygu'r prosesau llywodraethu ac mae'r agenda llywodraethu wedi cael ei rhannu'n feysydd cyfrifoldeb a gaiff eu dyrannu i weithwyr allweddol. Y rhanddeiliaid hynny sydd yn atebol bellach am gyflwyno adroddiadau misol a fydd yn rhoi gwybod i'r Uwch-dîm Rheoli am wybodaeth sy'n berthnasol i ofal a thriniaeth y cleifion, gofal diogel ac effeithiol, ac unrhyw faterion adnoddau dynol mewn perthynas â goruchwyllo, hyfforddiant, arfarniadau, recriwtio a chadw staff, digwyddiadau, gwersi a ddysgwyd a llesiant. Mae Cyfarwyddwr yr Ysbyty hefyd wrthi'n datblygu dangosfwrdd electronig yn benodol at ddibenion llywodraethu. Bydd hwn yn darparu'r wybodaeth sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth Tŷ Grosvenor ar flaenau eich bysedd yn llythrennol.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands	Cwblhawyd, i'w fonitro'n fisol
			Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands	Hydref 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethu a'r Cyfarfod Boreol ar Sicrhau Ansawdd yn cynnwys unrhyw gynllun gweithredu rheoleiddiol/arolygu i sicrhau y cymerir pob cam sydd ei angen.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands	Cwblhawyd, i'w fonitro'n fisol
Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r diffygion o ran nifer y staff, a rhoi system effeithiol ar waith i sicrhau y gellir archwilio nifer y staff yn effeithiol.	Rheoliad 20 (1) (a)	Mae pob swydd wag glinigol wedi'i llenwi. Mae gennym dair swydd wag ar gyfer nyrsys cofrestredig ar hyn o bryd ac rydym yn gor-recriwtio i'n rolau gweithiwr adfer er mwyn sicrhau bod staff parhaol a gyflogir gan Elysium Healthcare yn uniongyrchol ar gael os oes angen i wneud arsylwadau ychwanegol nawr neu yn y dyfodol, gan liniaru'r angen i ddibynnu ar staff asiantaeth.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands	Dyddiol
		Caiff adnoddau dynol yr adran Nyrsio eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod Cyfarwyddwr yr Ysbyty yn parhau'n rhagweithiol wrth recriwtio a bod pob swydd wag yn cael ei llenwi.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands	Wythnosol
		Cedwir mewn cysylltiad â'n recriwtwyr yn y brif swyddfa a rheolwr cynefino Cymru. Cynhelir trafodaethau dyddiol â'r gweinyddwyr adnoddau dynol ar y safle i gynnal trosolwg o aelodau newydd o'r staff, staff sy'n gadael a staff sy'n cynefino.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands	Wythnosol Dyddiol

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Ers yr Arolygiad Dirybudd â Phwyslais Penodol a gynhaliwyd ar 29 a 30 Mehefin a 1 Gorffennaf 2020, mae Cyfarwyddwr yr Ysbyty wedi gofyn i'r nyrs arwain a rheolwyr y wardiau sicrhau eu bod yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod y nyrsys cofrestredig sy'n rheoli'r sifftiau'n ddyddiol, dydd a nos, yn cwblhau'r taflenni dyrannu sifftiau'n llawn i ddangos y staff sydd ar ddyletswydd, y dyletswyddau a gyflawnir ganddynt a'r seibiannau a gymerir. Caiff y broses ei hategu ymhellach drwy sicrhau bod ail nyrs gofrestrredig ar gael ei weithio yn ystod seibiannau ac i helpu gydag unrhyw ddigwyddiadau.</p> <p>Bydd y taflenni dyletswyddau/rotas hefyd yn dangos y staff sydd ar ddyletswydd, a gofynnwyd i reolwyr y wardiau sicrhau bod unrhyw newidiadau i daflenni dyletswyddau'n amlwg fel y gellir rhoi fersiwn weithredol i unrhyw arolygwyr yn y dyfodol. Bydd yn bosibl darllen enw pob aelod o'r staff ac os bydd angen croesi allan unrhyw destun, gwneir hyn fesul llinell.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae ffôn symudol ar alw sy'n galluogi hysbysu am absenoldebau o'n system rheoli absenoldebau. Mae hyn yn rhoi gwybod i'r uwch-nyrs ar alw am unrhyw absenoldebau nas cynlluniwyd y tu allan i oriau, sy'n rhoi cyfle iddi</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p> <p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands</p>	<p>Yn barhaus, i'w ddangos drwy lywodraethu clinigol</p> <p>Yn barhaus, i'w ddangos drwy lywodraethu clinigol</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gymryd camau unioni a rhoi gwybod i Gyfarwyddwr yr Ysbyty.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff pob aelod o staff eu goruchwyllo a'u harfarnu'n briodol.	Rheoliad 20 (2) (a)	Yn dilyn yr Arolygiad Dirybudd â Phwyslais Penodol a gynhaliwyd ar 29 a 30 Mehefin a 1 Gorffennaf 2020, mae Cyfarwyddwr yr Ysbyty wedi sicrhau bod pennaeth pob adran wedi trefnu sesiynau goruchwyllo am flwyddyn i bob aelod o'r timau, ynghyd ag arfarniad blynyddol. Cofnodwyd y data hyn yn ganolog gan gynorthwydd personol Cyfarwyddwr yr Ysbyty.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Edward Rowlands	Cwblhawyd